

Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig



Disgrifiad Cryno o Adeilad Rhestredig:

Rhif Cyfeirnod
87782

Rhif yr Adeilad

Gradd
II

Statws
Dynodedig

Dyddiad Dynodi
23/11/2018

Dyddiad Diwygio

Enw
The Poplars

Cyfeiriad

Lleoliad

Awdurdod Unedol
Abertawe

Cymuned
Pontlliw and Tircoed

Tref

Ardal

Dwyreiniad

261185

Gogleddiad
200270

Ochr o'r Stryd

Lleoliad

Ar ddiwedd tramwyfa breifat oddi ar ochr ddwyreiniol Swansea Road, a nodir gan byrth a phorthordy adfeiliedig ym mhen deheuol Pontlliw.

Disgrifiad

Dosbarthiad bras
Domestig

Cyfnod

Cyfnod

Fe'i hadeiladwyd tua 1890 gan y diwydiannwr lleol Friedrich William Dahne a'i enw gwreiddiol oedd Friedrichsruh. Credir mai Awstriad oedd Dahne. Cofnodir iddo hysbysebu am 'Working Housekeeper' ym mis Hydref 1899 a dangosir y tŷ a'r gerddi am y tro cyntaf ar 2il argraffiad map yr AO dyddiedig 1900. Cyfeirir ato fel 'Attractive modern country mansion' ar adeg ei werthu yn 1913. Mae'n tebyg erbyn hynny roedd F Dahne wedi marw am fod y tŷ yn cael ei feddiannu (ym mis Hydref 1914) gan fab Friedrich, sef David. Erbyn canol yr 20fed ganrif roedd wedi cael ei ailenwi'n 'The Poplars'. Mae cynllun 'The Poplars' wedi'i briodoli i'r pensaer Glendinning Moxham (1865-1946) a oedd yn weithredol ledled De Cymru ac yn byw yn Abertawe. Cyhoeddodd Moxham 'Country Homes & Cottages' yn 1910 a oedd yn cynnwys darluniau o'i gynlluniau ei hun o dai adeiledig ac arfaethedig. Ynddo mae'n nodi'r arddulliau a ffeirir ganddo, sef waliau plastr garw wedi'u paentio'n wyn ac wedi'u hanner coedio yn hytrach na cherrig lleol yn y golwg, a theils coch ar gyfer waliau a thoeon. Yn fewnol, defnyddir derw ar gyfer prif elfennau gwaith saer (grisiau, trawstiau, drysau a phaneli) gyda'r gweddill wedi'i baentio. Mae hefyd yn cynnig syniadau ar fathau o gynlluniau, gyda chynlluniau ymarferol â ffenestri dwfn yn cael eu ffafrio yn lle gweddllun deniadol. Cynlluniodd Moxham Oriol Gelf Glyn Vivian (1909), banciau, ysbytai a marchnadoedd ac adeiladau eraill ledled Cymru. Mae Glen Hir ar Heol Gŵyr (1900-1910) a gynlluniwyd gyda dylanwad Ffrengig ar ffurf caeadau a thoeon crymion wedi'i briodoli i Moxham. Moxham a oedd yn gyfrifol am Glwb Hwyllo Môr Hafren a adeiladwyd yn arddull Hen Seisnig (1904) ar Heol y Mwmbwls. Roedd arddulliau Swistrol neu Alpaidd wedi'u defnyddio yn Abertawe o'r blaen yn ystod y 19eg ganrif gyda'r Bwthyn Swistrol ym Mharc Singleton yn cael ei adeiladu yn 1826 a'r Hen Reithordy ym mhentref Llanmadog (1876-77) a adeiladwyd gan y Parch J D Davies.

Tu allan

Tŷ ar wahân yn arddull Hafoty Alpaidd. Brics coch ag addurniadau o gerrig, plinth a band sil ar y llawr gwaelod. Gwaith coed addurniadol wedi'i baentio'n wyn. Toeau llechi, hanner talcen slip ag ymylon main rholiog a bondo bargodol dwfn a phennau trawstiau wedi'u mowldio. Cyrn simnai uchel o frics, teils crib a thopwaith addurnol. Ffenestri casment pen cylchrannol â 6 chwarel, ar y llawr gwaelod gyda 2 ffenestr uwchben. Cynllun 'C' hirsgwar sy'n ymestyn o'r gogledd-ddwyrain i'r de-orllewin ar safle sy'n disgyn yn raddol. Yn yr ardd ceir rhes ddeulawr hir sy'n wynebu'r de-ddwyrain, adenydd terfyn deulawr yn y pen gogledd-ddwyreiniol a'r pen de-orllewinol wedi'u cysylltu gan floc unllawr sy'n amgáu'r hyn a oedd, o bosibl, yn iard fewnol ar un adeg, wedi'i chau

gan wal sgrin mynedfa. Tŵr yn y gornel ddeheuol â thopwaith addurniadol a llechi sy'n torri drwy do 2 res ddeulawr. Gweddun y fynedfa i'r de-orllewin a nodweddir gan feranda 2 haen fargodol, uchder llawn, fawr sydd wedi'i gwneud o bren ar blinth o frics, sy'n amlapio ar y llawr cyntaf i'r gweddun ar y llawr chwith. Talcen adain yr ardd yn bargodi. Pyst wedi'u mowldio â chraffrwymau, sy'n fwaog ar y llawr gwaelod ac yn fyrrach ar y llawr cyntaf gyda manylion endoredig a sgolpiog. Pyst â bylchau afreolaidd rhyngddynt i'r chwith ond wedi'u grwpio'n 3 bae ar dalcen adain yr ardd â bae canolog lletach. Mae'r llawr cyntaf yn bargodi ac mae wedi'i gynnal gan gorbelau. Paneli estyllog agos isel amgylchynol i'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf gydag addurniadau wedi'u rhwylo, gyda'r un math o baneli wedi'u defnyddio fel estyll talcen. Yn y cefn ceir 3 ffenestr i adain yr ardd. Mae gwydr lliw i'w weld o hyd yn yr un ganolog gyda golygfeydd o lèn gwerin yr Alpau mewn paneli canolog sydd â thestun oddi tanynt ac wedi'u hamgylchynu gan gynlluniau blodeuol. Drysau mewn baeau allanol ar y lloriau gwaelod, 3 ffenestr i'r adain derfyn, drysau gwydr yn y bae canolog gyda gwydr plwm â sgroliau gwydr lliw hirgrwn o fenywod. Grisau i fyny â llawr o deils ar y llawr gwaelod, estyll pren ar y llawr cyntaf. Gweddun i'r gogledd-orllewin â thalcenni 2 adain derfyn gyda feranda bren isel fel o'r blaen ond yn agos i'r ffasâd ac yn fwy addurniadol nag ymarferol. 2 ffenestr i'r adain derfyn yn y gogledd-ddwyrain, adain derfyn yn y de-orllewin â 5 ffenestr ar y llawr gwaelod a 4 ar y llawr cyntaf, gyda blychau afreolaidd rhyngddynt. Rhew unllawr rhyngddynt â drws canolog llydan a ffenestri ar y naill ochr a'r llall iddi. Y wedd ogledd-ddwyrainiol, un ffenestr yng nghilfach yr adain derfyn, drws dall i'r llawr gwaelod. Estyniad deulawr bargodol ynghlwm wrth res yr ardd, ffenestr yn y gilfach dde, drws yn y gilfach chwith, drws wedi'i gau ac agoriad isel yn y prif ffasâd. Gweddun yr ardd sy'n cynnwys 5 pâr o ffenestri bae (10 o ffenestri), cynr simnai bargodol rhwng yr 2il a'r 3ydd pâr (llai o faint) a'r 4ydd a'r 5ed. Band sil ar y llawr cyntaf a siliau bargodol i'r ffenestri ar y llawr gwaelod. Ffenestri ar y llawr chwith ar y llawr gwaelod ffenestr ddall ag estyniad bach i'r dde. Porth mynedfa modern a ychwanegwyd yn y 4ydd bae â drws estyllog.

Tu mewn

Y tu mewn i'r adeilad mae'r cynllun gwreiddiol wedi goroesi'n gyflawn i raddau helaeth gyda'r drysau, y sgertin ac ati i'w gweld o hyd. Mae'r cyntedd mawr wedi goroesi ym mhhrif fynedfa'r ffasâd de-orllewinol, gydag un rhes o risiau derw sengl â phostyn grisau wedi'i fowldio, balwstrau a chanllaw. Drysau â 4 panel esgynedig gyda phaneli argaenedig, fframiau drysau. Paneli uchder llawn, mae'r lle tân ar y wal ar y llawr chwith wedi'i symud ac mae teils wedi'u gosod dros y lle gwag. Llawr teils. Islaw ceir cwpwrdd grisau.

Rheswm dros Ddynodi

Wedi'i restru am ei ddi-ddordeb pensaernïol arbennig fel tŷ o ddiwedd y 19eg ganrif o arddull ac ansawdd eithriadol, sydd wedi cadw ei gymeriad gwreiddiol ac a gynlluniwyd (yn ôl pob tebyg) gan bensaer blaenllaw o Abertawe. Adlewyrchiad ffisegol da o'r mudo gan ddiwydianwyr llwyddiannus i'r rhan hon o Abertawe, gyda'i gynllun a'i nifer fach o fanylion yn adlewyrchu cefndir ei berchennog gwreiddiol.

Cadw : Adroddiad Llawn ar gyfer Adeiladau Rhestredig